Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Arolwg cyn arolygiad: disgyblion (colegau annibynnol arbenigol)**

Rhowch eich barn i ni am eich coleg.

Darllenwch bob brawddeg, meddyliwch am eich profiadau yn y coleg, ac yna dywedwch wrthym i ba raddau rydych chi'n cytuno trwy roi tic yn y blwch sy'n rhoi eich barn.

Meddyliwch amdanoch chi eich hun a'ch profiadau yn y coleg, nid profiadau eich ffrindiau.

Os nad yw datganiad yn berthnasol i chi neu nid ydych yn gyfarwydd ag ef, ticiwch y blwch 'Ddim yn gwybod'.

**Bydd eich ymatebion unigol yn cael eu cadw'n gyfrinachol. Dim ond arolygwyr Estyn fydd yn eu darllen, ac ni fyddan nhw'n dweud wrth eich athrawon beth rydych chi'n ei ddweud. Ni fyddwn byth yn datgelu eich sylwadau unigol i'r coleg nac i unrhyw un y tu allan i Estyn.**

**Enw'r coleg:** ______________________________________________

Dewiswch ☐Gwryw ☐Benyw

| | **Dewiswch yr ymateb mwyaf priodol** | **Cytuno'n gryf** | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Anghytuno'n gryf** | **Ddim yn gwybod** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Rwy'n hoffi fy ngholeg | | | | | |
| 2 | Rwy'n credu fy mod i'n gwneud yn dda yn fy ngholeg | | | | | |
| 3 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ngholeg | | | | | |
| 4 | Rwy'n gwybod gyda phwy i siarad os ydw i'n poeni neu'n gofidio yn y coleg | | | | | |
| 5 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth | | | | | |
| 6 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda amser egwyl ac amser cinio | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | Dydy plant eraill **ddim** yn fy mwlio i | | | | | |
| 8 | Os bydd unrhyw fwlio yn digwydd, bydd y coleg yn delio ag ef yn dda | | | | | |
| 9 | Mae'r athrawon ac oedolion eraill yn y coleg yn fy helpu i ddysgu'n dda a gwneud cynnydd da | | | | | |
| 10 | Mae athrawon ac oedolion eraill yn y coleg yn rhoi gwaith diddorol i mi ei wneud yn y dosbarth | | | | | |
| 11 | Mae athrawon ac oedolion eraill yn y coleg yn disgwyl i fi weithio'n galed a gwneud fy ngorau | | | | | |
| 12 | Mae athrawon ac oedolion eraill yn y coleg yn trin yr holl blant yn deg ac yn dangos parch atyn nhw, gan gynnwys fi | | | | | |
| 13 | Mae'r coleg yn fy helpu i ddeall a pharchu pobl sy'n wahanol i fi | | | | | |
| 14 | Mae'r coleg yn fy helpu i ddeall sut gall bwyta ac yfed effeithio ar fy iechyd | | | | | |
| 15 | Mae llawer o gyfleoedd i fi wneud ymarfer corff yn y coleg | | | | | |
| 16 | Mae'r coleg yn helpu i fi wneud pethau drosof fi fy hun a chymryd cyfrifoldeb | | | | | |
| 17 | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a pha gymorth y gallaf ei gael os byddaf yn gweld fy ngwaith yn anodd | | | | | |
| 18 | Mae gen i ddigon o lyfrau ac offer i wneud fy ngwaith yn y coleg | | | | | |
| 19 | Mae athrawon ac oedolion eraill yn y coleg yn gwrando arnaf ac mae fy marn i am y coleg yn bwysig iddyn nhw | | | | | |
| 20 | Cefais gyngor da pan oeddwn i'n dewis fy nghyrsiau | | | | | |

Os hoffech chi ddweud unrhyw beth arall wrthym am eich coleg, defnyddiwch y lle hwn.

Os nad ydych yn teimlo'n ddiogel yn y coleg, siaradwch ag oedolyn rydych yn ymddiried ynddo/ynddi neu rhannwch eich pryderon gyda ni, trwy anfon neges e-bost atom: diogelu@estyn.llyw.cymru neu ffoniwch ni ar 02920 446446

I gael gwybodaeth am y modd rydym yn ymdrin â data personol a roddir i ni, cyfeiriwch at ein hysbysiad preifatrwydd: https://www.estyn.llyw.cymru/document/hysbysiad-preifatrwydd

Dychwelwch holiaduron mewn amlen wedi'i selio, i RHADBOST ESTYN